Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid
Principal Youth Officers' Group

# **Grwp Prif Swyddogion Ieuenctid:** Arolygu gwasanaethau addysg yr awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc – gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol

**September 2012**

ASSOCIATION OF DIRECTORS OF EDUCATION IN WALES
CYMDEITHAS CYFARWYDDWYR ADDYSG CYMRU

WLGA • CLILC

**Cyhoeddwyd:** Medi 2012

**Hawlfraint:** Grwp Prif Swyddogion Ieuenctid

**ISBN:** 978-1-906423-90-2

## Arolygu gwasanaethau addysg yr awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc – gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol

Mae’r papur hwn wedi’i lunio er cymorth i swyddogion arweiniol newydd a phrofiadol gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol.  Ei ddiben yw rhoi gwybodaeth, cymorth a chyfarwyddyd.  At hynny, mae’n bosibl y bydd yn sbarduno trafodaethau am rôl y gwasanaeth ieuenctid yn y dyfodol ynglŷn â helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cynorthwyo’r ifainc.

Yn ogystal â’r papur hwn, rydyn ni wedi llunio papur arall ac ynddo sylwadau Estyn am wasanaethau ieuenctid yn sgîl arolygu darpariaeth addysg yr awdurdodau lleol rhwng 2004 a 2012, gan gynnwys amryw arferion da welodd yr arolygwyr yn ystod y cyfnod hwnnw.

## Cefndir

Ar un adeg, roedd Gwasanaeth Ieuenctid Cymru yn destun arolygu trylwyr. Ar ôl i'r drefn honno ddod i ben, byddai arolygwyr yn cyflwyno adborth amdano yn rhan o'r golwg ehangach ar wasanaethau cynorthwyo'r ifainc. Erbyn hyn, fodd bynnag, yn ôl y trefniadau presennol ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg yr awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc, does dim gofyn i roi adborth penodol amdano.

Mae'r papur am sylwadau arolygwyr Estyn yn dangos bod y rhan fwyaf o'u geiriau am wasanaethau ieuenctid yn ystod yr 8 mlynedd dan sylw yn gadarnhaol ac yn nodi bod ansawdd y gwaith sydd wedi'i gyflawni ymhlith yr ifainc yn dda. Fodd bynnag, yn ôl swyddogion arweiniol sydd wedi cymryd rhan mewn arolygiadau yn ddiweddar, mae mwy a mwy o gwestiynau a disgwyliadau gan arolygwyr sy'n awgrymu y dylai gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol ysgwyddo rhagor o gyfrifoldeb am nifer o feysydd – yn arbennig cymorth ehangach i'r ifainc. Er nad oes cyfeiriad penodol at hynny yn sylwadau'r arolygwyr, mae'n achosi pryder achos nad oes gofyn statudol i'r swyddogion arweiniol gyflawni cyfrifoldebau o'r fath ar hyn o bryd.

## Gofynion statudol i awdurdodau lleol ynglŷn â gwasanaethau cynorthwyo'r ifainc

Dyma ddyletswyddau'r awdurdodau lleol yn ôl Rhan 123 Deddf 'Dysgu a Medrau' 2000:

'..cynnal neu gomisiynu gwasanaethau cynorthwyo'r ifainc neu gymryd rhan ym mhroses eu cynnal. *Diffiniad y ddeddf o wasanaethau cynorthwyo'r ifainc yw gwasanaethau fydd yn annog, yn galluogi neu'n helpu pobl ifanc i wneud y canlynol – naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol:*
*(a) cymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant;*
*(b) manteisio ar gyfleoedd i gael swydd;*
*(c) cymryd rhan ym mywyd eu cymunedau mewn modd effeithiol a chyfrifol.'*

O ddadansoddi adroddiadau arolygwyr Estyn yn fwy trylwyr, mae'n ymddangos bod yr awdurdodau lleol – ar y cyfan – yn cyflawni eu dyletswydd statudol i 'ddarparu' neu 'gomisiynu' gwasanaethau cynorthwyo'r ifainc ond eu bod yn methu â 'chymryd rhan' yn y ddarpariaeth. Yn aml, mae argymhellion yn yr adroddiadau yn dweud bod diffyg gwybodaeth am rwydwaith ehangach gwasanaethau cynorthwyo'r ifainc a bod hynny'n amharu ar brosesau cynllunio, casglu/ dadansoddi data, rheoli perfformiad a dyrannu adnoddau o ran diwallu anghenion pobl ifanc.
Rhaid i'r awdurdodau lleol a Llywodraeth

Cymru gydweithio'n agosach i ofalu bod cyfrifoldebau statudol yn cael eu cyflawni. Yn sgîl symleiddio'r fframwaith cynllunio statudol a chyflwyno cynlluniau cyfun, mae nifer o anawsterau wedi codi, yn arbennig o ganlyniad i ddileu rhai o gyfrifoldebau'r partneriaethau dros faterion plant a'r ifainc. Lle mae hynny wedi digwydd, rhaid ailgyfeirio gwasanaethau cynorthwyo'r ifainc ac ystyried y ffordd orau o gydlynu prosesau a gweithgareddau.

Mae'n ymddangos bod Estyn a Llywodraeth Cymru yn disgwyl i wasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau strategol am ateb y ddyletswydd statudol. Bydd y rhannau isod yn esbonio'r hyn y gall gwasanaeth ieuenctid awdurdod lleol ei wneud a'r hyn na all ei wneud yn hynny o beth.

## Diffinio gwasanaethau cynorthwyo'r ifainc

Gall fod yn anodd pennu beth yn union yw gwasanaethau cynorthwyo'r ifainc gan fod sefydliadau statudol a mudiadau gwirfoddol yn eu cynnig ar y cyd. Yn y bôn, fe fydd gwasanaethau o'r fath yn cynnwys unrhyw wasanaeth, gweithgaredd neu brofiad sy'n helpu i wella byd pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, ynghyd â'r cymorth priodol sy'n eu galluogi i fanteisio ar y cyfryw wasanaethau, gweithgareddau a phrofiadau boed ym maes addysg, hyfforddiant neu waith fel y bydd modd iddyn nhw gymryd rhan ym mywyd eu cymunedau yn effeithiol ac yn gyfrifol.

## Gwasanaeth Ieuenctid Cymru

Yn rhinwedd ei rôl yn wasanaeth sy'n cynnig cymorth i'r ifainc, mae Gwasanaeth Ieuenctid Cymru yn cyflawni rôl benodol a gwerthfawr. Yn aml, bydd awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol yn cyflawni'r rôl honno ar y cyd. Dyna'r fframwaith ar gyfer gwaith ieuenctid. Gwaith ieuenctid yw'r alwedigaeth fwyaf hirsefydlog yn y gwasanaethau ehangach sy'n helpu'r ifainc, ac mae iddo feincnodau academaidd clir ar gyfer hyfforddiant, ffyrdd cadarn o ddilysu'r hyfforddiant hwnnw, set o amodau a thelerau gwladol i'r rhai sy'n gweithio yn y maes (gwaith amser llawn a rhan-amser fel ei gilydd), safonau galwedigaethol cadarn fu'n destun adolygu yn ddiweddar iawn, egwyddorion cryf a phoblogrwydd hen ei ail ymhlith y cyhoedd a phobl ifanc – er nad yw'n ei hyrwyddo ei hun bob amser.

## Mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl i ddysgu – ac mae'n llawn hwyl!

Mae gwaith ieuenctid yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu mewn amgylchiadau diogel a chefnogol.

Mae llythrennedd a rhifedd pobl ifanc Cymru yn bwnc llosg ar hyn o bryd. Diben yr ysgolion yw cynnal rhaglenni medrau sylfaenol ffurfiol i wella'r sefyllfa bresennol ac mae rôl i wasanaethau cynorthwyo'r ifainc yn y broses honno ynglŷn â chwalu meini tramgwydd sy'n rhwystro pobl ifanc rhag manteisio ar addysg ffurfiol ac, mewn rhai achosion megis rhaglenni addysg amgen, rôl fwy uniongyrchol ynglŷn â helpu pobl ifanc i wella eu medrau sylfaenol. Tiwtoriaid cymwysedig ddylai feithrin y medrau hynny ac, er y gall gweithiwr ieuenctid helpu pobl ifanc i wella medrau sylfaenol hyd yn oed lle nad oes ganddo gymwysterau o'r fath, fyddai ddim yn cyflawni rôl benodol megis cwnsler pe na bai ganddo gymwysterau ffurfiol yn y maes hwnnw.

Perthynas oedolion â phobl ifanc sydd wrth wraidd gwaith ieuenctid. Prif ddiben y gweithiwr ieuenctid yw hwyluso dysgu a datblygu personol a chymdeithasol trwy sgwrsio a thrafod. Gall gwaith ieuenctid ychwanegu at addysg ffurfiol trwy feithrin hyder a medrau ymhlith pobl ifanc fel y gallan nhw benderfynu ar faterion drostyn nhw eu hunain, bod yn fwy hyderus wrth ofyn am gymorth a gwybodaeth a meithrin cadernid teimladol – boed rywun sydd wedi cefnu ar y gymdeithas eisoes neu rywun sydd ar drywydd llwyddiant mawr yn y brif ffrwd.

Rydyn ni'n derbyn bod angen tystiolaeth am y modd mae gwasanaethau ieuenctid yn helpu pobl ifanc (mae trafodaeth am hynny yn nes ymlaen isod). Mae amryw ffyrdd o wneud hynny er y bydd yn anos mesur deilliannau haniaethol na'r rhai diriaethol.

Yn rhan o'r hyn mae Gwasanaeth Ieuenctid Cymru yn ei gynnig, gall llawer o bobl ifanc ennill **cymwysterau ac achredu**. I rai pobl ifanc, dyna fydd eu hunig gyfle i ddysgu. Mae pobl ifanc yn dewis cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid am nifer o resymau, fodd bynnag, ac efallai bod cyfle i ddysgu a chael hwyl yr un pryd mewn lle diogel yn bwysicach i rai na chydnabyddiaeth trwy achredu. Mae sawl ffordd feintiol ac ansoddol o gofnodi cynnydd o'r fath ac, o ddefnyddio'r ddau fath gyda'i gilydd, fe allwn ni gyflwyno llawer o dystiolaeth. Mae lefelau'r achredu wedi'u nodi yn arolwg Llywodraeth Cymru.

## Diogelu ansawdd

Fe fydd gwasanaeth cynorthwyo'r ifainc yn atebol am gyflawni'r gorchwylion mae'n gyfrifol amdanyn nhw yn y bartneriaeth.  Gall y trefniadau gynnwys comisiynu ar y cyd a chyfuno cyllidebau i wella deilliannau.  Y disgwyliadau o ran yr atebolrwydd hwnnw sy'n achosi peth ansicrwydd ar hyn o bryd, fodd bynnag. Er enghraifft, fydd mudiadau gwirfoddol bychain, cyrff cynrychioli'r chwaraeon a'r celfyddydau a chyflogwyr lleol ddim yn rhan o bartneriaethau lleol weithiau, er bod rôl eglur iddyn nhw ynglŷn â chael y maen i'r wal yn y maes hwn a'u bod yn bartneriaid o ran cynnig gwasanaethau i bobl ifanc.  Gall y gwir atebolrwydd fod yn llai eglur mewn achosion o'r fath o ganlyniad.

Ffordd arall o fynnu atebolrwydd yw cytundebau lefel gwasanaeth, yn arbennig lle mae gwasanaethau wedi'u caffael neu'u comisiynu.  Yr hyn sy'n llai eglur yw lefel y disgwyliadau ynglŷn â lefel nesaf y gwasanaethau unwaith bod pawb wedi cytuno ar yr hyn sydd i'w gynnig – sef pwy sy'n gyfrifol am bolisïau ac arferion cyfundrefnol.  Wrth ymrwymo i gytundeb â darparwr, dylai gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol wneud ei orau glas i ofalu bod gweithdrefnau perthnasol a chadarn ar gyfer diogelu / amddiffyn plant, iechyd a diogelwch a hyfforddiant.  Mae disgwyl i staff a gweithwyr gwirfoddol gadw at weithdrefnau o'r fath wedyn wrth ofalu am bobl ifanc ar ran y sefydliad dan sylw.

Ar hyn o bryd, dyw'r rhai sy'n arwain gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol ddim yn atebol am wasanaethau ehangach i'r ifainc fel y cyfryw (ar wahân i ambell faes y gallai swyddog arweiniol fod yn gyfrifol amdano yn ei awdurdod) a does dim digon o adnoddau ar gael i'r diben hwnnw, chwaith.

## Casglu, mesur a dadansoddi data

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Cymru yn casglu data ar y 'rheng flaen' trwy sustemau'r wybodaeth ar gyfer rheoli.  Er bod y sustemau hynny wedi'u llunio i gyflawni nifer o orchwylion i'r gwasanaeth megis cynllunio, monitro a gwerthuso, un o rannau pwysig eu rôl yw cyfleu 'darlun' o wasanaethau a'u heffeithiau ym mhob bro.

Bydd y data hynny'n cael eu cyflwyno bob blwyddyn i Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru a ysgwyddodd gyfrifoldeb am eu crynhoi fis Ebrill 2010.  Ar ôl eu crynhoi'n wladol yn ôl pedwar maes – aelodau, prosiectau, gweithlu ac arian – fe fydd y data'n cyfeirio proses datblygu a gwella'r gwasanaeth gan alluogi gweithwyr i gynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan ynddo a helpu pobl ifanc i chwalu'r hyn sy'n eu rhwystro rhag dysgu fel y gallan nhw gyflawni eu llawn dwf.

Er bod y dull hwnnw'n un gwerthfawr ynddo'i hun, mae PYOG wedi gofyn i Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru atgyfnerthu'r data trwy eu dadansoddi'n drylwyr eto i ddibenion gwella gwasanaethau.  Mae'r gwaith hwnnw'n cydblethu'n uniongyrchol â *Fframwaith Gwella Perfformiad* gafodd ei gyflwyno fis Ebrill 2011 gyda chymorth Pwyllgor Cydlynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), SOLACE Cymru a Bwrdd Materion Gwella WLGA.

Er nad oes bwriad i gyhoeddi data am wella gwasanaethau, bydd yn fan cychwyn ar gyfer canolfan feincnodi lle bydd amryw ddata ar gael i awdurdodau lleol i ddibenion gwella gwasanaethau.

## Deilliannau

Er bod nifer o wasanaethau ieuenctid lleol wedi cydio yn y syniad o Atebolrwydd yn ôl Canlyniadau, dim ond yn ddiweddar y dechreuodd trafodaethau gwladol am roi'r dull hwnnw ar waith ym maes gwaith ieuenctid.

Er bod rhai awdurdodau yn defnyddio'r dull, dim ond hyn a hyn o'u partneriaid wedi gwneud hynny a does neb yn deall ei holl fanteision ac anfanteision eto. Mae profiad yr awdurdodau sydd wedi ceisio ymgorffori'r dull wedi awgrymu bod eisiau llawer o adnoddau a chryn dipyn o newid yn y meddylfryd corfforaethol i allu gwneud hynny, hefyd. At hynny, gan nad yw'n bosibl mesur yr effaith ar rai deilliannau pwysig yn syth, bydd eisiau i bartneriaid ddod o hyd i ffordd gadarn o reoli perfformiad am y tro.

## Adnoddau

Er bod llawer o alw am wasanaethau i bobl ifanc, mae llai fyth o adnoddau ar eu cyfer.  Fel ym mhob gwasanaeth cyhoeddus, mae Gwasanaeth Ieuenctid Cymru yn chwilio'n barhaus am ffyrdd arloesol o ymdopi â llai o arian heb amharu ar safon ei waith.  Mae galw mawr am fedrau gwaith ieuenctid, ond rhaid bod yn ymarferol ynglŷn â'r hyn mae modd ei gyflawni heb ragor o adnoddau i ehangu'r gwasanaeth.  Rydyn ni wedi dangos yn gyson bod gwaith ieuenctid yn rhoi gwerth arian (£72.16 y pen oedd gwariant craidd y gwasanaeth yn 2009-10, o'i gymharu â £5,595 y pen yn yr ysgolion) ond ddylai neb ei ystyried yn ddewis rhad.

£24.1 miliwn oedd cyfanswm cyllidebau Gwasanaeth Ieuenctid Cymru yn 2009-10 (gan gynnwys £2.9 miliwn nad yw ar gael bellach yn sgîl cwtogi ar gyfalaf) sy'n 4% yn llai na chyllidebau 2008-09. Yn ogystal â'r gyllideb graidd, daeth £18.8 miliwn o ffynonellau eraill (44% o'r incwm i gyd) yn 2009-10.

Daeth £5.6 miliwn trwy grant Cymorth ond gan fod y grant hwnnw'n canolbwyntio ar Raglen 'Teuluoedd yn Gyntaf' bellach, mae'n debyg y bydd llawer o'r arian a ddeuai i wasanaethau ieuenctid o'r blaen yn mynd i'r rhaglen honno.  Daw'r arian fu ar gael i'r 15 awdurdod sy'n ymwneud â Rhaglen Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop i ben yn 2013, hefyd.

## Crynodeb

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Cymru yn galluogi gweithwyr ieuenctid i ddylanwadu'n fawr ar fywydau pobl ifanc er eu lles. Bydd yn parhau i wneud hynny yng nghyd- destun cymorth ehangach i'r ifainc gan geisio gwella ei wasanaethau a rhoi tystiolaeth gadarn am effaith ei waith ar bobl ifanc.

Er ein bod yn croesawu'r sylw ar rôl y gwasanaeth yng nghyd-destun gwasanaethau cynorthwyo'r ifainc ar hyn o bryd, rhaid i PYOG, Llywodraeth Cymru, Estyn a nifer o bartneriaid eraill gynnal trafodaethau am y modd y bydd hynny'n datblygu mewn cyfnod a chyd-destun newydd gan y bydd Estyn yn dechrau cyfres arolygu newydd.

Mae'n ymddangos bod digon o hyder yng ngwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol o ran helpu i hwyluso a chynnal gwasanaethau ehangach sy'n cynorthwyo pobl ifanc yn ystod arolygiadau a rhyngddyn nhw. Gan fod gweithdrefnau, protocolau a rhwydweithiau hirsefydlog a chysylltiadau cryf â mudiadau gwirfoddol, mae lle i gytuno â'r farn honno. Yn hytrach na gorffwys ar eu bri, fe fydd PYOG a'i amryw bartneriaid a budd-ddalwyr yn parhau i wella'r prosesau hynny er lles pobl ifanc, ond rhaid cydnabod eu hymdrechion a buddsoddi'n briodol ynddyn nhw.